Ymateb Grŵp Animeiddio Cymru

Rydym yn gefnogol o fwriad S4C i sefydlu sianel arbennig at gyfer plant Cymru, ac yn croesawi'r cyfle i'r sector animeiddio yng Nghymru ddatgan eu barn. Ysgrifennaf fel Cadeirydd Grŵp Animeiddio Cymru, gan obeithio y bydd aelodau unigol y Grŵp hefyd yn achub at y cyfle i gyfrannu at y drafodaeth.

Mae rhaglenni i blant fel rhan allweddol o deledu gyhoeddus o dan fygythiad yn y Deyrnas Unedig. Mae cyfyngiadau hysbysebu a phwysau masnachol yn gyffredinol wedi creu argyfwng yn y modd yr ariannir rhaglenni gwreiddiol. Mae ITV a Five wedi cwtogi eu buddsoddiad yn y maes er waethaf eu traddodiad o fod yn ail i'r BBC o ran nifer comisiynau. Yn ôl James Thickett, Cyfarwyddwr Ymchwil OFCOM, "Mae'r dystiolaeth hyd yn hyn yn dangos fod bygythiad amlwg i gyflenwad rhaglenni gwreiddiol o safon uchel i blant yn y Deyrnas Unedig".

Mae hyn yn destun pryder i rhieni. Yn ôl OFCOM mae dwy than o dair o rieni yn credu ei fod yn bwysig fod rhaglenni gwreiddiol ar gael i'w plant, tra fod 80% yn credu fod teledu i blant yn cyfrannu at eu datblygiad a'u haddysg.

Mae rhaglenni gwreiddiol yn boblogaidd gyda phlant. Mewn cartrefi aml sianelog lle bod gan plant ddewis eang o raglenni cynhenid a phryniannau tramor, mae dros 70 o'r 100 rhaglen mwyaf poblogaidd yn rhai a gynhyrchwyd yn y DU. Mae teledu yn hynod o bwysig i blant - dengys ffigyrau OFCOM fod gwylio rhaglenni i oedolion ymhlith plant yn gostwng tra fod mwy o blant yn gwylio rhaglenni a ddarparwyd yn benodol ar eu cyfer.

Golyga'r diffyg buddsoddiad gan sianeli masnachol fod y BBC bellach yn brif gyflenwydd teledu i blant. O ganlyniad i hyn, dim ond un ffenestr i'r Byd o'u cwmpas fydd gan blant ar wahan i'r cynnwys a fewnforiwyd a wledydd eraill. Mae'r BBC yn cyflawni rôl bwysig ym maes plant - ond ni all wneud y cwbwl. Pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant wrth gychwyn adolygiad Siarter y BBC fod angen fwy nag un ffynhonnell o ddarlledu cyhoeddus. Rhybuddiodd OFCOM a'r BBC yn erbyn y peryglon o ganiatau monopoli i'r BBC.

Mae gan S4C hanes a thraddodiad o ymateb i anghenion y siaradwyr Cymraeg ifanc sydd yn tyfu mewn nifer. Mae gan gynhyrchwyr o Gymru, a chynhyrchwyr animeiddio yn arbennig, drac record o greu rhaglenni o safon nid yn unig ar gyfer plant Cymru, ond sydd i'w gweld a'u mwynhau gan blant a gwmpas y Byd. Mae aelodau Grŵp Animeiddio Cymru wedi bod yn gyfrifol am raglenni a enillodd llu o wobrwyon rhyngwladol ac a werthwyd i gannoedd o wledydd tramor.

Gwelwn yma gyfle i S4C ymateb i'r tŵf yn y nifer o siaradwyr Cymraeg o dan 15eg, yn ogystal a manteisio ar y cyfle i greu rhaglenni gwreiddiol o Gymru y gellir eu gweld ar draws Prydain a thu hwnt. Mae gwir angen sianel gyhoeddus gref fydd yn gyfrifol am ddarparu rhaglenni gwreiddiol i blant - gall sianel blant S4C gynnig hyn ar draws sawl platfform darlledu.

Mae'r sector animeiddio yn fach ond yn uchel ei safon o ran talent. Adlewyrchir hyn yn y cwmniau cynhyrchu a hefyd yn y colegau a'r prifysgolion lle bod tri o gyrsiau animeiddio wedi ennill cymeradwyaeth Skillset. Gall sianel newydd I blant Cymru, sydd yn comisiynu cynnwys gwreiddiol o Gymru, sicrhau fod modd i'r talent ddatblygu a ffynnu yng Nghymru.

Rydym yn cydnabod y bydd adnoddau'r sianel yn gyfyngedig. Mae peryg y gallai hyn arwain at wasanaeth fydd yn ddibynnol ar rhaglenni a brynwyd neu ddybiwyd, a rhaglenni o safonau cynhyrchu isel. Byddai hyn yn gwneud cam gyda plant Cymru, ac yn colli cyfle euraidd i greu gwasanaeth amgen i'r hyn a gynigir gan y BBC i blant, yn i ogystal a bod yn ddatganiad hyderus o uchelgais S4C i arwain y ddarpariaeth i blant yn yr oes ddigidol.

Bydd angen gwneud y mwyaf o'r adnoddau a'r cyllid sydd ar gael. Mae'r sector animeiddio yn medru gwneud hynny. Mae gan ein rhaglenni apêl rhyngwladol eang yn ogystal a bod yn gynhenid i Gymru. Mae'r sector yn flaengar wrth ddatblygu cynnwys a thechnegau newydd - yn arbennig cynnwys ar gyfer platfformau newydd. Mae gan gwmniau animeiddio drac record o ddenu buddsoddiad ac o ychwanegu gwerth at gyfraniad S4C i'w cynyrchiadau. Byddai hyn yn gaffaeliad mawr i unrhyw wasanaeth newydd.

Mae'r sector animeiddio yng Nghymru yn ystyried sianel newydd i blant yn ddatblygiad cyffrous lawn yn hanes S4C, ac rydym yn ymrwymo i gyfrannu at y sianel gyda'r talent, arbenigedd a'r brwdfrydedd fydd yn allweddol i'w llwyddiant.

Yn gywir

Robin Lyons
CADEIRYDD